Skills for Learning Professionals

Sgiliau i Weithwyr Proffesiynol sy'n Dysgu

**19 March 2007**

## TEACHER TRAINING CONTRACT GOES TO LIFELONG LEARNING UK

An important contract for improving the standard of post-16 education and training in Wales has been awarded to Lifelong Learning UK.

Jane Davidson, the Welsh Minister for Education, Lifelong Learning and Skills, has announced that LLUK is to develop a new set of occupational standards for teachers, tutors and trainers in the lifelong learning sector in Wales.

Speaking at a conference in Cardiff on the 15th of March, Ms Davidson said LLUK would ensure that the standards support the innovative learning agenda for young people and adults in Wales.

The standards will reflect the distinct needs of the sector in Wales and will articulate with the professional standards in England to protect Labour market mobility in the UK.

Jane Davidson was speaking at a conference organised by the DYSG division of the Department for Education, Lifelong Leaning and Skills - part of the Welsh Assembly Government (WAG).

Michelle Sayers, LLUK's manager in Wales, welcomed the announcement and pledged that lifelong learning employers would be fully involved in drawing up the new standards.

"This work sits at the heart of our agenda in Wales," she says. "Once the standards are agreed, they will inform future work to develop qualifications for staff entering the profession, as well as being used by employers to support recruitment, job descriptions, appraisal and continuing professional development practices."

**19 Mawrth 2007**

## CONTRACT HYFFORDDI ATHRAWON YN MYND I LIFELONG LEARNING UK

Mae contract pwysig i wella safon addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru wedi ei ddyfarnu i Lifelong Learning UK.

Mae Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, wedi cyhoeddi y bydd LLUK yn datblygu set newydd o safonau galwedigaethol ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru.

Gan siarad mewn cynhadledd yng Nghaerdydd ar 15 Mawrth, dwedodd Ms Davidson y byddai LLUK yn sicrhau bod safonau'n cefnogi'r agenda ddysgu arloesol i bobl ifanc ac oedolion yng Nghymru.

Bydd y safonau'n adlewyrchu anghenion penodol y sector yng Nghymru ac yn cyd-fynd â'r safonau proffesiynol yn Lloegr i amddiffyn symudedd y farchnad lafur yn y DU.

Roedd Jane Davidson yn annerch cynhadledd a drefnwyd gan isadran DYSG yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau - rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Croesawyd y cyhoeddiad gan Michelle Sayers, rheolwr LLUK yng Nghymru, gan addo y byddai cyflogwyr dysgu gydol oes yn chwarae rhan lawn mewn llunio'r safonau newydd.

"Mae'r gwaith hwn wrth galon ein hagenda yng Nghymru," meddai. "Ar ôl cytuno'r safonau, byddant yn llywio gwaith yn y dyfodol i ddatblygu cymwysterau i staff sy'n dod i mewn i'r proffesiwn, yn ogystal â chael eu defnyddio gan gyflogwyr i gefnogi arferion recriwtio, disgrifiadau swydd,

--ENDS—

For more information about the announcement please contact Michelle Sayers, National Manager for Wales, on 0870 756 4974 or 07921 291 339.

For press enquiries please contact Caroline Thompson, Marketing and Communications Manager, 020 7936 5745.

**Notes for editors**

1. The lifelong learning sector has more than one million employees across the UK working in community learning and development, further education, higher education, libraries, archives and information services and work-based learning. Of these, approximately 109,000 operate in Wales.

2. LLUK aims to encourage teachers, trainers, librarians and other staff to gain new skills and qualifications so that they offer a better service to young people and adult learners.

3. It also promotes lifelong learning as a career so that employers in the sector have less difficulty recruiting and retaining staff.

4. In addition to developing sector-wide occupational standards, LLUK also produces labour market intelligence so that lifelong learning employers can identify skills gaps and shortages among their own workforce.

5. Lifelong Learning UK is one of 25 sector skills councils that make up the Skills for Business Network, set up by employers to raise skills levels among the workforce as a whole through better training and development.

arfarnu a datblygiad proffesiynol."

--DIWEDD—

Am fwy o wybodaeth am y cyhoeddiad cysylltwch â Michelle Sayers, Rheolwr Cenedlaethol Cymru, ar 0870 756 4974 neu 07921 291 339.

Gydag ymholiadau wrth y wasg cysylltwch â Caroline Thompson, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu, 020 7936 5745.

**Nodiadau i olygyddion**

1. Mae gan y sector dysgu gydol oes fwy na miliwn o weithwyr ar draws y DU sy'n gweithio ym meysydd dysgu a datblygu cymunedol, addysg bellach, addysg uwch, llyfrgelloedd, archifau a gwasanaethau gwybodaeth a dysgu yn y gwaith. O'r rhain, mae rhyw 109,000 yn gweithredu yng Nghymru.

2. Nod LLUK yw annog athrawon, hyfforddwyr, llyfrgellwyr a staff eraill i ennill sgiliau a chymwysterau newydd er mwyn cynnig gwasanaeth gwell i bobl ifanc ac oedolion sy'n dysgu.

3. Mae hefyd yn hyrwyddo dysgu gydol oes fel gyrfa fel y bydd gyflogwyr yn y sector lai o anhawster yn recriwtio ac yn cadw staff.

4. Yn ogystal â datblygu safonau galwedigaethol i'r sector cyfan, mae LLUK yn cynhyrchu gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn i gyflogwyr dysgu gydol oes gael gweld bylchau a diffygion o ran sgiliau ymhlith eu gweithlu eu hun.

5. Mae Lifelong Learning UK yn un o 25 o gynghorau sgiliau sector sy'n rhan o Rwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes, a sefydlwyd gan gyflogwyr i godi lefelau sgiliau ymhlith y gweithlu cyfan drwy well hyfforddiant a datblygiad.

6. Mae Sgiliau ar gyfer Busnes yn rhwydwaith a arweinir gan gyflogwyr sy'n cynnwys 25 o Gynghorau Sgiliau Sector a'r Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector. Trwy ei wybodaeth ddihafal am y

farchnad lafur a mewnwelediad gan gyflogwyr ym mhob sector o economi’r DU, mae’r rhwydwaith yn nodi newidiadau sydd eu hangen i bolisi ac ymarfer sy’n ymwneud ag addysg a +datblygu sgiliau. Gyda’r dylanwad a roddir gan drwyddedau oddi wrth lywodraethau Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd lwerddon, a chyda chylid preifat a chyhoeddus, mae’r rhwydwaith annibynnol hwn yn ymwneud â’r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant, fel prifysgolion, colegau, cyllidwyr a chyrff cymwysterau, i gynddu cynhyrchedd ar holl lefelau’r gweithlu.